Tŷ Afon, Heol Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

029 2085 9696

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Cylchlythyr | Circular

Ymgynghoriad ar Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft CCAUC ar gyfer 2017-20

Dyddiad:	23 Mehefin 2017
Cyfeirnod:	W17/17HE
At:	Sefydliadau a reoleiddir yng Nghymru Partïon eraill sydd â diddordeb
Ymateb erbyn:	**Dylid cyflwyno'r ymatebion i Sheridan Nott sheridan.nott@hefcw.ac.uk erbyn dydd Mercher, 12 Gorffennaf 2017**
Cyswllt:	Enw: Celia Hunt / Steve Williams Rhif ffôn: 029 2085 9731 / 029 2085 9744 E-bost: celia.hunt@hefcw.ac.uk / steven.williams@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu ymgynghoriad ar strategaeth gorfforaethol ddrafft CCAUC ar gyfer 2017-20.

Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn fformat hwylus arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu ymgynghoriad ar Strategaeth Gorfforaethol ddrafft CCAUC ar gyfer 2017-20.

Cefndir

2. Paratowyd Strategaeth Gorfforaethol gyfredol CCAUC yn 2012/13 ar ôl ymgynghori helaeth â'r sector. Mae copi o'r strategaeth lawn ar gael yma: Strategaeth Gorfforaethol 2013-14 - 2016-17.

3. Mae llawer o newidiadau wedi bod mewn addysg uwch yng Nghymru ac i rôl CCAUC ers paratoi'r strategaeth, gan gynnwys gweithredu Deddf Addysg Uwch (Cymru) newydd 2015. Daeth y Ddeddf â newidiadau i rôl CCAUC, gan gynnwys y newid o ystyried 'y sector' i 'sefydliadau a reoleiddir' a darparwyr addysg uwch. Rhoddir ystyriaeth bellach i amgylchedd y polisi isod.

4. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[1] yn sefydlu saith nod llesiant sy'n cefnogi'r egwyddor datblygu cynaliadwy bod rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Datblygu cynaliadwy yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan geisio cyflawni'r saith nod llesiant. Mae hyn yn uniongyrchol berthnasol i gyrff cyhoeddus fel CCAUC, sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf, ond nid yw'n cynnwys prifysgolion a cholegau'n uniongyrchol.

5. Cafodd y strategaeth gorfforaethol bresennol ei hymestyn am flwyddyn i ystyried yr ansicrwydd cysylltiedig â chanlyniadau adolygiadau mawr o gyllid addysg uwch a chyllid myfyrwyr a'r sector ôl-orfodol. Roedd i fod i ddod i ben ym mis Ebrill 2017. Fodd bynnag, mae'r Strategaeth honno wedi cael ei hymestyn ymhellach drwy gytundeb gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, o ystyried yr ansicrwydd parhaus mewn rhai meysydd, a drafodir isod. Mae'r estyniad hwnnw'n cynnwys y cyfnod hyd at 31 Awst 2017 a gofynnwyd i CCAUC gyflwyno strategaeth ddrafft ar gyfer 2017-20 i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Gorffennaf 2017.

Amgylchedd y Polisi

6. Un newid allweddol i amgylchedd y polisi ar gyfer addysg uwch yn y DU ers y strategaeth flaenorol yw cyflwyno ffioedd hyfforddi lefel uwch ar gyfer dyraniad llawn amser i ddarparwyr AU o £216m rhwng blwyddyn academaidd 2011/12 a 2015/16, gostyngiad o 60%. Cafodd y gostyngiad hwn mewn cyllid effaith arwyddocaol ar ddylanwad polisi CCAUC, gan ei

[1] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-cy.pdf

gwneud yn anos canfod ffyrdd o sicrhau cyflawni meysydd blaenoriaeth allweddol, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u datgan yn ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2013-17. Fel ymateb i'r pryderon a godwyd, comisiynodd Llywodraeth Cymru Yr Athro Syr Ian Diamond i gadeirio adolygiad o gyllid addysg uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i argymhellion yr adolygiad ac mae hyn yn rhoi cyfeiriad mewn perthynas â chyllid myfyrwyr a chyllid[2]. Fodd bynnag, mae angen rhagor o wybodaeth fel bod CCAUC yn gallu datblygu barn am drefniadau cyllido yn y dyfodol ar ôl 2018/19.

7. Fel ymateb i leihau dylanwad a gyflawnwyd gyda chyllid, cafodd Deddf AU (Cymru) 2015 ei phasio gan roi pwerau rheoleiddio ychwanegol i CCAUC i newid ysgogiadau cyllido am rai rheoleiddio sy'n rhoi sylw i fynediad teg, ansawdd, ymarferoldeb ariannol a threfniadaeth a rheolaeth ar faterion ariannol. Mae'r sefydliadau hynny sydd â chynllun mynediad a ffioedd wedi'i gymeradwyo gan CCAUC yn dod yn 'sefydliadau a reoleiddir' sy'n gallu codi ffi hyfforddi am fyfyrwyr llawn amser israddedig hyd at uchafswm Llywodraeth Cymru[3].

8. Yn 2015/16, comisiynodd Llywodraeth Cymru Yr Athro Ellen Hazelkorn i gynnal adolygiad o'r oruchwyliaeth ar addysg ôl-orfodol yng Nghymru, gan gyfeirio'n benodol at rôl a swyddogaeth CCAUC yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2016 ac ymatebodd Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad drwy gynnig sefydlu un awdurdod strategol.[4] Wrth ysgrifennu'r cylchlythyr hwn, mae'r ymgynghoriad newydd gael ei gyhoeddi ar sefydlu Comisiwn Ymchwil ac Addysg Drydyddol newydd ar gyfer Cymru, i ddarparu goruchwyliaeth, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

9. Yn ein cylch gwaith ar gyfer 2016-17, gofynnwyd i CCAUC 'weithio mewn partneriaeth â darparwyr i ddatblygu Strategaeth ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru yn edrych ymlaen ar hyd y degawd nesaf'. Ar ôl ymgynghori manwl ag amrywiaeth eang o randdeiliaid – gan gynnwys Prifysgolion Cymru, Colegau Cymru ac NUS Cymru – a digwyddiad ymgynghori gyda llawer ynddo ym mis Hydref 2016 – cyflwynwyd drafft o Strategaeth i Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Rhagfyr 2016. Roedd ein Strategaeth ar gyfer cyfnod o 10 mlynedd ac roedd wedi'i llunio yn erbyn nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r drafft yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Weinidogion ac, yng ngoleuni agenda Hazelkorn, mae CCAUC wedi cael cyfarwyddyd i weithio'n agos â'r Llywodraeth wrth iddi symud ymlaen gyda'i gweledigaeth ar gyfer system ôl-orfodol sy'n fwy cydlynol. Yn y cyfamser, gan gydnabod dymuniad CCAUC i ddatblygu strategaeth gorfforaethol tra mae datblygiadau eraill yn cael eu hymgorffori,

---

[2] http://gov.wales/topics/educationandskills/highereducation/reviews/review-of-he-funding-and-student-finance-arrangements/?skip=1&lang=cy

[3] https://www.hefcw.ac.uk/working_with_he_providers/he_wales_act_2015/he_wales_act_2015_cy.aspx

[4] http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/reports/review-of-the-oversight-and-regulation-of-post-compulsory-education-and-training-in-wales/?skip=1&lang=cy

mae strategaeth bresennol CCAUC wedi cael ei hymestyn gan roi amser i ddatblygu ac ymgynghori ar strategaeth lefel uchel newydd, gan ystyried amcanion strategol y strategaeth AU ddrafft.
Mae copi o'r amcanion strategol arfaethedig wedi'i atodi yn **Atodiad A**.

10. Yn ystod cyfnod y Strategaeth Gorfforaethol, cyflwynwyd Bil Addysg Uwch ac Ymchwil newydd yn San Steffan. Roedd hwn yn cynnwys amrywiaeth o faterion addysg uwch, gan gynnwys ailstrwythuro'r cyngor cyllido yn Lloegr i fod yn Swyddfa ar gyfer Myfyrwyr a threfniadau newydd ar gyfer cyllido ymchwil drwy gyfrwng corff newydd, UK Research and Innovation (UKRI). Cafodd Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 ei phasio ym mis Ebrill 2017. Rydym hefyd yn aros am y canlyniadau llawn yn sgil canlyniad yr etholiad cyffredinol ar 8 Mehefin 2017, sydd hefyd yn debygol o effeithio ar addysg uwch, er ei fod yn fater wedi'i ddatganoli.

11. Yn dilyn y refferendwm ym mis Mehefin 2016, mae Llywodraeth San Steffan wedi tanio Erthygl 50 Cytundeb Lisbon, sy'n dechrau'r broses o dynnu'r DU allan o'r Undeb Ewropeaidd. Drwy ffrydiau cyllido amrywiol, gan gynnwys Horizon 2020 a Chronfa Gymdeithasol Ewrop yng Nghymru, mae darparwyr addysg uwch yng Nghymru wedi elwa o gyllid yr UE. Mae ansicrwydd mawr am sut bydd tynnu allan yn effeithio o bosib ar y DU yn gyffredinol ac, yn benodol, ar Gymru ac ar ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru. Mae hyn wedi dwysáu yn sgil cyhoeddi'r etholiad cyffredinol, a allai bennu cyfeiriad polisi gwahanol.

Adolygiad o'r strategaeth gorfforaethol flaenorol

12. Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer ein Strategaeth Gorfforaethol newydd, adolygodd y swyddogion berfformiad yn erbyn y Strategaeth bresennol ar gyfer 2013-17.

13. Mae copi o'r adolygiad cyntaf o'r strategaeth flaenorol wedi'i atodi yn **Atodiad B**.

14. Ceir gwybodaeth am berfformiad darparwyr addysg uwch yng Nghymru yn erbyn targedau'r strategaeth gorfforaethol yn ein hadroddiad blynyddol.[5]

Y Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft

15. Gan ystyried ansicrwydd yr amgylchedd polisi, yn ogystal â llai o ysgogiadau ar gael i CCAUC drwy gyllid, mae Cyngor CCAUC wedi cytuno y dylai ein strategaeth gorfforaethol fod yn un lefel uchel a chanolbwyntio ar beth mae CCAUC yn gallu ei wneud, yn hytrach na'r elfennau y gellir eu cyflawni yn y sector. Mewn newid i'r dulliau blaenorol o weithredu, mae'r strategaeth ddrafft hon, sydd wedi'i hatodi yn **Atodiad C**, yn seiliedig felly ar

[5] http://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/corporate_documents/Annual%20Report/HEFCW%20statutory%20accounts%202015-16%20Welsh.pdf

dasgau cyllid CCAUC; rheoleiddio; dylanwadu; a gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr mewn perthynas ag addysg uwch, yn ogystal â bod yn sefydliad effeithiol. Byddwn yn parhau i ymgymryd â'r swyddogaethau hynny i geisio cyflawni ein gweledigaeth barhaus ar gyfer

> *addysg uwch gynaliadwy, hygyrch a rhagorol yn rhyngwladol yng Nghymru*.

16. Mae'r cyd-destun polisi fel mae wedi'i ddatgan yn y paragraffau uchod a'r amcanion strategol drafft yn Atodiad A, ond ein hamcanion yn y pen draw fydd y rhai sydd wedi'u datgan yn strategaeth ôl-16 newydd Llywodraeth Cymru y byddwn yn cyfrannu ati. **O gofio bod y strategaeth gorfforaethol ddrafft yma'n debygol o gael ei diwygio ac felly'n gryno iawn, rydym wedi pennu cyfnod ymgynghori byrrach.**

17. Yn allweddol i'n helfennau i'w cyflawni mae ein tri amcan Llesiant, a baratowyd fel ymateb i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol ac sydd wedi'u nodi ar dudalen 2.

18. Yn unol â'r cyfarwyddyd gan Gyngor CCAUC i ganolbwyntio ar CCAUC, rydym wedi datgan 12 Ffactor Llwyddiant CCAUC ar dudalen 6. Nid oes unrhyw fesurau na thargedau ar gyfer perfformiad darparwyr addysg uwch wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, un o'r tasgau cyntaf sydd wedi'u cynnwys er mwyn 'dylanwadu gyda chyngor seiliedig ar dystiolaeth a gwaith partneriaeth cadarn' yw datblygu mesurau ar gyfer monitro perfformiad a chyflawniad darparwyr addysg uwch. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar fesurau o'r fath yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

19. Gwahoddir sefydliadau a reoleiddir a phartïon eraill sydd â diddordeb i gyflwyno sylwadau ar y cylchlythyr hwn a'i atodiadau, yn enwedig Strategaeth Gorfforaethol ddrafft CCAUC ar gyfer 2017-20. Byddai o gymorth pe bai'r ymatebwyr yn gallu defnyddio'r cwestiynau canlynol yn eu hymateb.

    C1 – oes ffactorau lefel uchel ychwanegol yn amgylchedd y polisi y mae'n rhaid i ni eu hystyried?

    C2 – oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr adolygiad o'r strategaeth flaenorol?

    C3 – oes gennych chi unrhyw sylwadau a fydd yn sail i ddatblygu mesurau i fonitro perfformiad a chyflawniad darparwyr AU?

    C4 – oes unrhyw dasgau lefel uchel eraill rydym wedi'u hepgor rhwng 2017 a 2020?

    C5 – oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ffactorau llwyddiant CCAUC?

C6 – ydi'r strategaeth yn cael unrhyw effeithiau positif neu negatif o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, yr iaith Gymraeg, neu Genedlaethau'r Dyfodol?

C7 – oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?

20. Cyflwynwch eich ymatebion i Sheridan Nott (rhif ffôn 029 2085 9660, e-bost sheridan.nott@hefcw.ac.uk) erbyn **dydd Mercher, 12 Gorffennaf 2017.**

Rhagor o wybodaeth

21. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Celia Hunt (rhif ffôn 029 2085 9731; e-bost celia.hunt@hefcw.ac.uk) neu Steve Williams (rhif ffôn 02920 859 744 e-bost steven.williams@hefcw.ac.uk).

Asesu effaith ein polisïau

22. Byddwn yn cynnal sgrinio asesiad effaith i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu ac i hybu cydraddoldeb; effaith polisïau ar yr iaith Gymraeg, a'r ddarpariaeth Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru, a'r effeithiau ar gynaliadwyedd. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn sail i'r asesiad effaith hwnnw. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.

Atodiad A

Strategaeth Addysg Uwch Ddrafft – amcanion strategol

1. Mwy o bobl o bob oedran yn cael cyfle i astudio a llwyddo mewn AU, heb ystyried cefndir economaidd gymdeithasol, nodweddion gwarchodedig neu amgylchiadau eraill.

2. Argaeledd opsiynau dysgu hyblyg, gan gynnwys darpariaeth ran amser, prentisiaethau uwch, dysgu seiliedig ar waith a dysgu o bell i ddiwallu anghenion amrywiol dysgwyr.

3. Llwybrau academaidd a galwedigaethol cynyddol i AU o'r ysgol, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg.

4. Ymgysylltu â phobl gan ddarparwyr AU yn gynyddol weithredol ar draws cymdeithas, yr economi a chymunedau.

5. Darparwyr AU yn dangos polisïau ac arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth effeithiol, yn esiamplau da o gynaliadwyedd ac yn diogelu llesiant eu staff a'u myfyrwyr.

6. Darparwyr AU mewn sefyllfa gystadleuol gadarn yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

7. Myfyrwyr yn profi addysg uwch ragorol ac yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr i'w gwella.

8. Y ddarpariaeth yn bodloni gofynion perthnasol cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol, o ansawdd uchel ac yn arwain at raddedigion hynod hyblyg.

9. Cynnydd sylweddol yn amrywiaeth y pynciau y gellir eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn AU, ac yn nifer y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg.

10. Mwy o raddedigion â sgiliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd proffesiynol, gan gynnwys drwy yrfaoedd lle maent yn gweithio'n uniongyrchol â'r cyhoedd.

11. Staff a myfyrwyr darparwyr AU yn cyfoethogi diwylliant Cymru.

12. Mwy o bobl o bob oedran yng Nghymru'n datblygu ac yn defnyddio gwybodaeth a sgiliau lefel uchel sy'n hanfodol i anghenion presennol a newydd Cymru.

13. Graddedigion o ddarparwyr AU yng Nghymru â gwell dealltwriaeth o effaith eu dewisiadau ar bobl eraill, yr economi a'r amgylchedd.

14. Graddedigion o ddarparwyr AU yng Nghymru yn fwy entrepreneuraidd a chyflogadwy.

15. Darparwyr AU yn cydweithio ac yn ymateb i ddiwallu anghenion rhanbarthol a chenedlaethol cyflogwyr, gan ddarparu gweithlu sgiliedig a hyblyg ar gyfer y dyfodol.

16. Sylfaen ymchwil sy'n gynyddol ddeinamig ac arloesol, yn gallu ymateb yn hyblyg i heriau a chyfleoedd newydd, ac yn gynaliadwy yn ariannol yn y tymor hwy.

17. Rhagoriaeth ac effaith ymchwil yng Nghymru'n cael ei gynyddu ymhellach.

18. Y system AU ar gael yn hwylus i bartneriaid allanol, gan arwain at waith partneriaeth mwy effeithiol rhwng darparwyr AU a chyflogwyr yng Nghymru.

19. Mwy o fusnesau newydd, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, yn cael eu sefydlu, eu cynnal a'u tyfu yng Nghymru o ganlyniad i'r wybodaeth a gynhyrchir gan ddarparwyr AU.

20. Cydweithredu rhyngwladol yn cynyddu mewn ymchwil cydweithredol blaengar ar lefel byd a darpariaeth addysgol drawsgenedlaethol o ansawdd uchel.

21. Mwy o gyfleoedd yn cael eu cynnig i fyfyrwyr a staff AU gymryd rhan mewn profiadau symudedd allanol.

22. Statws gwell yn fyd-eang i AU, ac enw da yn rhyngwladol, a mwy o ymgysylltu strategol â systemau AU eraill.

23. Cyfraniad mwy gan ddarparwyr AU i roi sylw i heriau byd-eang, gan gynnwys y rhai a wynebir gan wledydd sy'n datblygu ac economïau sy'n dod i'r amlwg.

24. Mwy o fyfyrwyr, staff a phartneriaethau strategol rhyngwladol yn cyfoethogi gwybodaeth, diwylliant ac economi Cymru.